**Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru**

Annwyl Ymgynghorai

Sefydlwyd Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Un o'i brif gyfrifoldebau yw paratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol drafft, ymgynghori ar y gorchmynion hynny a'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan Weinidogion.

Fel Cadeirydd y Panel, rwy'n ysgrifennu atoch i gael eich barn am newidiadau sy'n cael eu cynnig gan y Panel i delerau ac amodau gweithwyr amaethyddol, i'w cynnwys yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2019. Cafodd y cynigion hyn eu gwneud yng nghyfarfod y Panel ar 4 Medi ac fe'u rhestrir isod:

## 1. Cyfraddau Tâl

Mae'r Panel yn cynnig y dylid cynyddu'r cyfraddau tâl isaf ar gyfer gweithwyr amaethyddol fel a ganlyn:

| Gradd | Cyfradd Bresennol £ yr awr | Cyfradd Arfaethedig £ yr awr |
|---|---|---|
| Gradd 1 o dan 16 | £3.47 | £3.54 |
| Gradd 1 16-24 | £7.38 | £7.52 |
| Gradd 1 25 + | £7.83 | £7.98 |
| Gradd 2 | £8.29 | £8.45 |
| Gradd 3 | £8.54 | £8.70 |
| Gradd 4 | £9.16 | £9.36 |
| Gradd 5 | £9.70 | £9.88 |
| Gradd 6 | £10.48 | £10.64 |

Dylid codi cyfraddau prentisiaid fel a ganlyn:

| Gradd | Cyfradd Bresennol £ yr awr | Cyfradd Arfaethedig £ yr awr |
|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | £3.93 | £4.00 |
| Blwyddyn 2 16-17 | £4.21 | £4.29 |
| Blwyddyn 2 18-20 | £5.90 | £6.01 |
| Blwyddyn 2 21-24 | £7.38 | £7.52 |
| Blwyddyn 2 25 + | £8.05 | £8.20 |

Gellir cynyddu'r cyfraddau hyn os bydd yr Isafswm y Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi'n uwch na'r cyfraddau tâl isaf arfaethedig ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Lwfansau Arfaethedig Eraill:

| | Cyfredol | Arfaethedig | |
|---|---|---|---|
| Lwfans Cŵn | £8.02 | £8.17 | Y Ci yr Wythnos |
| Lwfans Gwaith Nos | £1.52 | £1.55 | Yr awr ar gyfer gwaith nos |
| Lwfans Genedigaeth / Mabwysiadu | £63.09 | £64.29 | Y Plentyn |

**2. Newidiadau Arfaethedig Eraill**

Eglurhad yw'r cyntaf yn hytrach na newid polisi ac mae angen yr ail er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith cyflogaeth gyfredol.

a. Dileu paragraff 11(b) o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru);

O dan erthygl 11 o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 diffinnir prentis fel a ganlyn:

> 11.—(1) Mae gweithiwr amaethyddol yn brentis sydd wedi ei gyflogi o dan brentisiaeth—
>
> (a) os yw'n cael ei gyflogi o dan naill ai contract prentisiaeth neu gytundeb prentisiaeth o fewn ystyr “apprenticeship agreement” yn adran 32 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(1), neu'n
>
> cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan gontract prentisiaeth; ***a***
>
> ***(b) os yw o fewn y 12 mis cyntaf ar ôl cychwyn y gyflogaeth honno yn llai na 19 oed.***
>
> (2) Rhaid i weithiwr amaethyddol gael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan gontract prentisiaeth os yw wedi ei gymryd ymlaen yng Nghymru o dan drefniadau Llywodraeth o’r enw Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau neu Brentisiaethau Uwch.
>
> (3) Yn yr erthygl hon ystyr “trefniadau Llywodraeth” yw trefniadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973(1) neu o dan adran 17B o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(2).

Mae'r Panel yn ystyried y diffiniad hwn yn gamarweiniol gan nad oes rhaid i brentis fod o dan 19 oed. Mae'r cyfeiriad hwn at oedran yn ymwneud â sefyllfa pan fo gan brentis hawl i gyfradd prentisiaeth yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol o dan y ddeddfwriaeth ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Nid yw hyn yn berthnasol i weithwyr amaethyddol gan fod y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn nodi cyfraddau rhagnodedig ar gyfer prentisiaid amaethyddol.

Mae'r Panel yn o’r farn y gellir gwneud y mater hwn yn fwy eglur drwy ddileu cymal 11(b) (y geiriad mewn print bras ac italig uchod).

b. Diwygio'r term 'diwrnodau cymwys' mewn perthynas â darpariaeth gwyliau blynyddol.

Mae'r Panel yn o’r farn y gellid dehongli'r diffiniad presennol o “diwrnodau cymwys” (“*qualifying days*”) a ddefnyddir yn y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol i gyfrifo'r hawl i wyliau blynyddol mewn ffordd a allai fod yn niweidiol i weithwyr amaethyddol sy'n cymryd gwyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd profedigaeth neu absenoldeb statudol am resymau teuluol (e.e. mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu). Mae'r diffiniad o “diwrnodau cymwys” yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) fel a ganlyn:

***ystyr “diwrnodau cymwys” (“qualifying days”) yw diwrnodau pan fyddai’n ofynnol fel arfer i’r gweithiwr amaethyddol fod ar gael i weithio heblaw unrhyw ddiwrnodau pan oedd y gweithiwr amaethyddol-***

***(a) yn cymryd gwyliau blynyddol;***
***(b) yn cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth; neu***
***(c) yn cymryd absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu statudol.***

Gellid dehongli'r diffiniad hwn i olygu *nad yw* “diwrnodau cymwys” yn cynnwys diwrnodau pan gymerir gwyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd profedigaeth neu absenoldeb am resymau teuluol. Mae gan weithwyr amaethyddol yr hawl i gronni gwyliau wrth gymryd gwyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd profedigaeth neu absenoldeb am resymau teuluol. Gallai dehongliad o'r fath, felly, arwain at golled i weithwyr amaethyddol. Mae gan weithwyr amaethyddol yr hawl hefyd i gronni gwyliau yn ystod cyfnod o salwch.

Mae'r Panel felly yn dymuno gwella'r diffiniad o ddiwrnodau cymwys er mwyn sicrhau bod diwrnodau cymwys ***yn cynnwys*** diwrnodau pan fo gweithwyr amaethyddol yn cymryd gwyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd profedigaeth, absenoldeb am resymau teuluol neu pan fyddant yn absennol oherwydd salwch.

Mae'r Panel yn cynnig diwygio'r diffiniad o ddiwrnodau cymwys fel a ganlyn:

ystyr “diwrnodau cymwys” (“*qualifying days*”) yw diwrnodau pan fyddai’n ofynnol fel arfer i’r gweithiwr amaethyddol fod ar gael i weithio gan gynnwys unrhyw ddiwrnodau pan oedd y gweithiwr amaethyddol-

(a) yn cymryd gwyliau blynyddol;
(b) yn cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth;
(c) yn cymryd absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu statudol; neu
(d) yn cymryd absenoldeb oherwydd salwch.

Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael eich sylwadau ar y cynigion hyn cyn **26 Hydref** er mwyn i’r Panel gyflwyno ei gyngor i’r Gweinidogion yn unol â Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi. Os hoffech ymateb yn ddienw, nodwch hynny gyda'ch ymateb. Diolch ichi ymlaen llaw am ymateb.

Ysgrifennwch at Reolwr y Panel yn y cyfeiriad isod, neu anfonwch e-bost at: Ryan.Davies@llyw.cymru

Ryan Davies
Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Yn gywir

Lionel Walford
Cadeirydd
Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru